# Pecyn Addysg Amgueddfa Forwrol Llŷn





Y Gronfa Datblygu Cynaliadwy AHNE Llŷn
The Llŷn AONB Sustainable Development Fund
Llywodraeth Cymru Welsh Government
Amgueddfa Forwrol Llŷn Maritime Museum
heritage treftadaeth
LOTTERY FUNDED ARIENNIR GAN Y LOTERI

https://llyn-maritime-museum.co.uk/adnoddau-i-ysgolion.html

# Rhan 1:
# Yr Amgueddfa



Amgueddfa Forwrol Llŷn Maritime Museum

# Beth yw Amgueddfa?

| | |
|---|---|
| gwybod | G |
| eisiau gwybod | E |
| wedi dysgu | D |

Amgueddfa Forwrol Llŷn Maritime Museum

# Beth yw Amgueddfa?

**Mae gan yr Amgueddfa Swyddog Treftadaeth yn gweithio yno.**

| |
|---|
| Meddyliwch am gwestiynau i holi'r Swyddog am yr Amgueddfa |



Amgueddfa Forwrol Llŷn Maritime Museum

# Beth yw Amgueddfa?

**Mae Swyddog Treftadaeth yn gweithio yn yr Amgueddfa.**

**Beth?**

**Pryd?**

Meddyliwch am gwestiynauu i holi’r Swyddog am yr Amgueddfa

**Faint?**

**Pwy?**

Amgueddfa Forwrol Llŷn Maritime Museum

# Beth yw Amgueddfa?

| Pwy sy'n mynd i Amgueddfa? |
| --- |
| |
| |
| |

| Beth sydd i'w wneud mewn Amgueddfa? |
| --- |
| |
| |
| |

| Enwch gwahanol Amguedd<u>feydd</u> |
| --- |
| |
| |
| |

| Ydych chi wedi bod mewn Amgueddfa erioed? Rhestrwch pa rai! |
| --- |
| |
| |
| |

Amgueddfa Forwrol Llŷn Maritime Museum

# Beth yw Amgueddfa?

| Ewch ar wefan Amgueddfa Forwrol Llŷn; enwch 3 pheth sydd i'w wneud yno<br>www.llyn-maritime-museum.co.uk |
| --- |
| 1. |
| 2. |
| 3. |

| Pwy sy'n mynd i Amgueddfa Forwrol Llŷn? copiwch 2 lun oddi ar y wefan yma | |
| --- | --- |
| | |

| Edrychwch ar wefan www.dayoutwiththekids.co.uk → Gwynedd<br>Rhestrwch Amgueddfeydd eraill sydd yng Ngwynedd |
| --- |
| |
| |
| |
| |

# Adeilad yr Amgueddfa?

Edrychwch ar lun adeilad Amgueddfa Forwrol Llŷn





1. Sut ffenestri sydd gan yr adeilad?

2. Beth sydd ar dô yr adeilad?

3. Beth sydd o amgylch yr adeilad?

4. Beth ydych chi'n ei feddwl oedd yr Amgueddfa ers talwm?

5. Pa mor hen ydych chi'n meddwl ydi adeilad yr Amgueddfa?

6. Pa gliwiau sy'n eich helpu chi i feddwl faint ydi oed adeilad yr Amgueddfa?



Amgueddfa Forwrol Llŷn Maritime Museum

# Beth mae pobl yn wneud yn yr Amgueddfa?

| Berfau | Defnyddiwch y berfau cryno yma i esbonio mewn brawddeg beth mae pobl yn ei wneud mewn Amgueddfa |
|---|---|
| cyfri | Cyfrodd Twm dri angor tu allan i'r Amgueddfa. |
| dysgu | |
| darllen | |
| edrych | |
| ymchwilio | |
| gwrando | |
| datrys | |



Amgueddfa Forwrol Llŷn Maritime Museum

# Geiriau Amgueddfa

Cyfatebwch y geiriau â'r disgrifiad

| | |
|---|---|
| arteffact | Pobl sy'n mynd i'r Amgueddfa. |
| ymwelwyr | Hen wrthrych (peth) yw hwn. |
| tystiolaeth | Hen lun camera neu ddarlun. |
| arddangosfa | Rhywbeth sy'n profi fod rhywbeth wedi digwydd e.e. dyddiadur |
| dogfen | Gwybodaeth am rywbeth ar wal neu mewn cwpwrdd gwydr. |
| mapiau | Hen ddarn o ysgrifen e.e. llythyr |
| lluniau | Hen gynllun o rywle. |

Amgueddfa Forwrol Llŷn Maritime Museum

# Geiriau Amgueddfa

Esboniwch ystyr y geiriau yn y bocs gwag

| | |
|---|---|
| arteffact | |
| ymwelwyr | |
| tystiolaeth | |
| arddangosfa | |
| dogfen | |
| mapiau | |
| lluniau | |

Amgueddfa Forwrol Llŷn Maritime Museum

# Geiriau Amgueddfa

Cyfatebwch y geiriau â'r lluniau

ymwelwyr




arddangosfa



dogfen



arteffact



Amgueddfa Forwrol Llŷn Maritime Museum

# Geiriau Amgueddfa

Cyfatebwch y geiriau â'r lluniau ac ysgrifennwch frawddeg fach i esbonio ystyr y gair

ymwelwyr




arddangosfa



dogfen



arteffact





Amgueddfa Forwrol Llŷn Maritime Museum



# y fynwent

Ewch i'r fynwent efo'r daflen, clipfwrdd a phensil

Nodwch ddyddiadau'r beddi

| dyddiad ar y garreg fedd | siart tali | nifer |
|---|---|---|
| 1950- 2020 | | |
| 1900-1949 | | |
| 1850-1899 | | |
| 1800-1849 | | |
| 1750-1799 | | |
| 1701-1749 | | |
| Cyn 1700 | | |



Defnyddiwch j2data ar HWB i gofnodi'r data mewn graff

Amgueddfa Forwrol Llŷn Maritime Museum



# y fynwent

Ewch i'r fynwent efo'r daflen, clipfwrdd a phensil

Nodwch ar y daflen enwau pobl a chartrefi sydd ar y cerrig beddi

Oes ambell fedd yn nodi swydd y person? Nodwch nhw!

| Enwau pobl | Enwau cartrefi | Swydd (galwedigaeth) |
|---|---|---|
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |

Beth ydych chi'n ei sylwi am yr enwau? cartrefi? swyddi? trafodwch

Amgueddfa Forwrol Llŷn Maritime Museum



# y fynwent

Ewch i'r fynwent efo'r daflen, clipfwrdd a phensil

Nodwch enwau pob Capten llong ac enw llong sydd ar y cerrig bedd

| Enwau Capteiniaid | Enwau llongau |
| --- | --- |
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |

Beth ydych chi'n ei sylwi am enwau Capteiniaid a'r llongau?

Amgueddfa Forwrol Llŷn Maritime Museum



# y fynwent

**Ewch o amgylch y fynwent i chwilio!**

Mae olion hen graffiti llongau a phrintiau llaw wedi'u darganfod ar rai beddi.

Gwnewch rwbiad o'r graffiti hefo papur a chreionau.

Tynnwch lun y graffiti a'i argraffu



Amgueddfa Forwrol Llŷn Maritime Museum



# y fynwent

| | siart tali | nifer |
|---|---|---|
| bedd plentyn | | |
| bedd dyn | | |
| bedd dynes | | |
| bedd rhywun o Nefyn | | |
| bedd rhywun o du allan i Nefyn | | |
| bedd llongwr | | |
| **cyfanswm** | | |



Defnyddiwch sheets ar HWB i gofnodi'r data mewn taenlen

Amgueddfa Forwrol Llŷn Maritime Museum



# y fynwent

Ewch o amgylch y fynwent i chwilio am blanhigion, cen a chreaduriaid

- Tynnwch luniau ohonynt
- Ewch yn ôl i'r ysgol i ddarganfod eu henwau a mwy amdanynt
- Allwch chi wneud bas data efo'r holl rywiogaethau ddaru pawb yn y dosbarth eu darganfod?

| planhigion | cen | creaduriaid |
|---|---|---|
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |

Amgueddfa Forwrol Llŷn Maritime Museum

# Gwaith map

Beth yw'r symbolau map yma sydd o gwmpas yr Amgueddfa a Nefyn?


























| | |
|---|---|
| ysgol | chwarel |
| man addoli hefo tŵr | amgueddfa |
| coedwig fyth-wyrdd | blwch ffôn |
| maes parcio | ffordd |

Amgueddfa Forwrol Llŷn Maritime Museum

# Gwaith map

1. Labelwch y symbolau Map Ordnans yma  o 1-8

2. Ewch ar y we neu edrychwch ar fap i ddarganfod beth yw'r nodweddion yma sydd o gwmpas yr Amgueddfa a Nefyn




Symbol 1.

Symbol 2.

Symbol 3.

Symbol 4.

Symbol 5.

Symbol 6.

Symbol 7.


Symbol 8.



Amgueddfa Forwrol Llŷn Maritime Museum

# Gwaith map

1. Labelwch 4 pwynt y cwmpawd
2. Defnyddiwch gwmpawd i ddarganfod lle mae'r Gogledd
3. Nodwch i ba gyfeiriad mae'r symbolau map o amgylch y cwmpawd







Amgueddfa Forwrol Llŷn
Maritime Museum

# Gwaith map

1. Labelwch 8 pwynt y cwmpawd
2. Defnyddiwch gwmpawd i ddarganfod lle mae'r Gogledd
3. Nodwch i ba gyfeiriad mae'r symbolau map
   o amgylch y cwmpawd yn pwyntio



























Amgueddfa Forwrol Llŷn Maritime Museum

# Gwaith map

1. Labelwch bwyntiau'r cwmpawd
2. Defnyddiwch gwmpawd i ddarganfod lle mae'r Gogledd
3. Sefwch tu allan i'r Amgueddfa
4. Chwiliwch am bethau sydd i'w gweld i bob cyfeiriad
5. Nodwch nhw ar y cwmpawd






Amgueddfa Forwrol Llŷn Maritime Museum

# Gwaith map yn y dosbarth

1. Labelwch bwyntiau'r cwmpawd
2. Defnyddiwch gwmpawd i ddarganfod lle mae'r Gogledd
3. Chwiliwch am bethau sydd i'w gweld i bob cyfeiriad e.e **bwrdd gwyn = De**
4. Nodwch nhw ar y cwmpawd






Amgueddfa Forwrol Llŷn Maritime Museum

# Gwaith map ar y buarth

1. Labelwch bwyntiau'r cwmpawd
2. Defnyddiwch gwmpawd i ddarganfod lle mae'r Gogledd
3. Chwiliwch am bethau sydd i'w gweld i bob cyfeiriad e.e **gôl pêl-droed**
4. Nodwch nhw ar y cwmpawd





Amgueddfa Forwrol Llŷn Maritime Museum

# gwaith map

Labelwch yr Amgueddfa ar yr awyrlun



Labelwch  nodweddion eraill ar yr awyrlun

# gwaith map

Dewisiwch nodweddion oddi ar y map neu wrth sefyll tu allan i'r Amgueddfa

Beth yw cyfeirnod grid y nodweddion?

| nodwedd | cyfeirnod grid 2 ddigid | *cyfeirnod grid 4 digid |
|---|---|---|
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |



Amgueddfa Forwrol Llŷn Maritime Museum

# gwaith map

Dewisiwch nodweddion oddi ar y map neu'r awyrlun,

dosbarthwch nhw yn y tabl

| nodwedd | ffisegol | dynol |
|---|---|---|
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |



Amgueddfa Forwrol Llŷn Maritime Museum

# gwaith map

1. Dewiswch nodweddion oddi ar y map
2. Dosbarthwch nhw yn y tabl
3. Nodwch gyfeirnod grid y nodwedd

| nodwedd | ffisegol | dynol | cyfeirnod grid |
|---|---|---|---|
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |



Amgueddfa Forwrol Llŷn Maritime Museum

# gwaith map

Labelwch yr Amgueddfa ar yr awyrlun



- Labelwch nodweddion eraill ar yr awyrlun
- Ydych chi'n gallu darganfod y symbolau O.S. am y nodweddion?



www.ordanancesurvey.co.uk/mapzone

Amgueddfa Forwrol Llŷn Maritime Museum

# gwaith map

Labelwch yr Amgueddfa ar yr awyrlun




Labelwch  nodweddion eraill ar yr awyrlun

| nodwedd | Cyfeirnod grid 2 ddigid | Symbol O.S. |
|---|---|---|
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |



Amgueddfa Forwrol Llŷn Maritime Museum

# gwaith map

Labelwch yr Amgueddfa ar yr awyrlun




Labelwch  nodweddion eraill ar yr awyrlun

| nodwedd | Cyfeirnod grid 4 digid | Symbol O.S. |
|---|---|---|
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |

Amgueddfa Forwrol Llŷn Maritime Museum

# gwaith map

Labelwch Nefyn ar fap Llwybr y Pererinion




Ewch i wefan Llwybr y Pererinion

https://pilgrims-way-north-wales.org/lleoedd.html

1. Nodwch sawl Eglwys neu ffynnon sydd ar y llwybr
2. Ewch ar Hwb ar Slides i greu Pwerbwynt o Eglwysi sydd ar y Llwybr




Amgueddfa Forwrol Llŷn Maritime Museum

# gwaith map

Ydych chi'n gallu marcio Llwybr y Pererinion ar yr awyrlun?






Amgueddfa Forwrol Llŷn Maritime Museum

# gwaith map

Ysgrifennwch gyfarwyddiadau teithio o'ch ysgol/ pentref chi i'r Amgueddfa ar gyfer gwefan yr Amgueddfa



Amgueddfa Forwrol Llŷn Maritime Museum

# llinell amser hanes yr Amgueddfa

| | |
|---|---|
| 200 C.C. | Pobl yn byw ar ben Garn Boduan |
| 0 O.C. | Geni Iesu Grist |
| 50-400 O.C. | Yr Oes Haearn – potiau ac offer llaw wedi'u darganfod o'r cyfnod yma yn Nhre'r Ceiri |
| 500-600 O.C. | Sylfaen safle'r Amgueddfa'n cael ei gosod |
| 1200 | Cyfnod Llywelyn ein Llyw Olaf a'r ddynes (sgerbwd o dan fur yr Amgueddfa) |
| 1825 | Adeiladu Eglwys Santes Fair, yr Amgueddfa bresennol |
| 1840 | Agor Chwarel y Gwylwyr |
| 1846 | Oes Fictoria—Adeiladu tŵr Nefyn |
| 1760- 1880 | Oes aur adeiladu llongau yn Nefyn |
| 1910 | Cyn y Rhyfel Byd Cyntaf - pysgota penwaig yn Nefyn yn dod i ben |
| 1932 | Sefydlu Clwb Pêl-droed Nefyn |
| 2014 | Ail agor yr Amgueddfa |



Amgueddfa Forwrol Llŷn Maritime Museum

# llinell amser hanes yr Amgueddfa

Ymchwiliwch i ddarganfod ddyddiadau pwysig eich pentref chi a'u nodi ar y linell amser

| | |
|---|---|
| 200 C.C. | |
| 0 O.C. | Geni Iesu Grist |
| 50-400 O.C. | |
| 500-600 O.C. | |
| 1200 | |
| 1825 | |
| 1840 | |
| 1846 | |
| 1760-1880 | |
| 1910 | |
| 1932 | |
| 2014 | |

Amgueddfa Forwrol Llŷn Maritime Museum

# llinell amser hanes yr Amgueddfa

Ewch ati i greu poster lliwgar ar App neu raglen (Word/ Publisher/ Docs/ j2e5/ Adobe Spark) i esbonio ystyr y geiriau yma

| | |
|---|---|
| C.C. | |
| O.C. | |
| Cyfnod | |
| oes | |
| cronolegol | |
| darganfod | |
| ymchwilio | |
| ers talwm | |
| y dyfodol | |
| y presennol | |



Amgueddfa Forwrol Llŷn Maritime Museum

# llinell amser

Trefnwch y linell amser yn gronolegol o 1 i 12

| | | |
|---|---|---|
| | 1846 | Adeiladu Tŵr Nefyn |
| | 200 C.C | Pobl yn byw ar ben Garn Boduan |
| | 2014 | Ail agor yr Amgueddfa |
| | 1840 | Agor chwarel y Gwylwyr |
| | 1200 | Cyfnod Llywelyn ein Llyw Olaf a'r ddynes (sgerbwd o dan fur yr Amgueddfa) |
| | 1932 | Sefydlu Clwb Pêl-droed Nefyn |
| | 50-400 O.C | Yr Oes Haearn – potiau a chelfi wedi'u darganfod o'r cyfnod yma ar ben Tre'r Ceiri |
| | 0 O.C. | Geni Iesu Grist |
| | 1760-1880 | Oes aur adeiladu llongau yn Nefyn |
| | 500-600 O.C | Gosod sylfaen adeilad yr Amgueddfa. |
| | 1825 | Adeiladu Eglwys Santes Fair |
| | 1910 | Cyn y Rhyfel Byd Cyntaf – Pysgota penwaig yn Nefyn yn dod i ben |



Amgueddfa Forwrol Llŷn Maritime Museum

# celf

Edrychwch ar lun Amgueddfa Forwrol Llŷn, astudiwch y waliau cerrig





Defnyddiwch bensil neu siarcol a sialc i arbrofi hefo tôn du a gwyn

du gwyn

du gwyn

du gwyn

Amgueddfa Forwrol Llŷn Maritime Museum

# celf

Edrychwch ar luniau waliau cerrig; cofiwch sut i greu tôn hefo'ch pensil neu siarcol a sialc





Defnyddiwch bensil neu siarcol a sialc i wneud sgets o dŵr neu un o waliau'r Amgueddfa

* Cofiwch sut i ddefnyddio tôn i greu cysgod *



Amgueddfa Forwrol Llŷn Maritime Museum



# Celf

Edrychwch ar lun tŵr yr Amgueddfa



Edrychwch ar y technegau dyfrlliw yma i arbrofi hefo lliwiau sydd yn llun yr Amgueddfa





# celf

**Dyma rai technegau defnyddio dyfrliwiau**

*cymysgu lliwiau cynradd i greu lliwiau eilradd

*goleuo lliw – ychwanegu mwy o ddŵr

*tywyllu lliw – ychwanegu mwy o baent







Amgueddfa Forwrol Llŷn Maritime Museum



# celf

Arbrofwch hefo technegau dyfrlliw

e.e. brwsh sych ar bapur gwlyb, brwsh gwlyb ar bapur gwlyb

Cymysgwch baled o'r lliwiau sydd yn llun yr Amgueddfa




| | | | |
|---|---|---|---|
| tywyll | tywyll | tywyll | tywyll |
| | | | |
| | | | |
| golau | golau | golau | golau |

Amgueddfa Forwrol Llŷn Maritime Museum

# Celf

Peintiwch lun dyfrlliw o dŵr yr Amgueddfa





Amgueddfa Forwrol Llŷn Maritime Museum



# Celf

Edrychwch ar arddull yr arlunydd Denise Henry

Paratowch baled o liwiau dyfrlliw tebyg

Peintiwch lun dyfrlliw o'r Amgueddfa



# celf

Edrychwch ar arddull yr arlunydd Denise Henry

Paratowch baled o liwiau dyfrlliw tebyg

Peintiwch lun dyfrlliw o'r Amgueddfa, neu beth am ddefnyddio pastiliau?





Amgueddfa Forwrol Llŷn Maritime Museum

# dylunio a thechnoleg

Gweithiwch mewn grwpiau i greu model o'r Amgueddfa allan o sbwriel

Bydd angen:-

1. Rhywun i wneud y siâp allan o hen focsys
2. Rhywun i orchuddio'r siâp hefo papur gegin a PVA a'i beintio
3. Rhywun i greu'r fynwent—gwair, llwybr a cherrig beddi
4. Rhywun i greu model o'r ceiliog gwynt
5. Rhywun i greu cylched drydanol hefo motor
   fel bod y ceiliog gwynt yn troi

Cynllun model yr Amgueddfa wedi'i labelu a nodi mesuriadau

# dylunio a thechnoleg

Rydym am greu cylched drydan sy'n pweru ceiliog gwynt sy'n troelli



Edrychwch ar y llun; pa offer fyddwch chi ei angen i greu cylched?

Gwnewch restr o offer



Amgueddfa Forwrol Llŷn Maritime Museum

# dylunio a thechnoleg



Edrychwch ar  lun y ceiliog gwynt

Pa ddeunyddiau sbwriel allwn ni eu defnyddio i greu un?

Gwnewch gynllun isod– labelwch y cynllun




Amgueddfa Forwrol Llŷn Maritime Museum

# dylunio a thechnoleg



Defnyddiwch symbolau cylched i lunio diagram cylched hefo motor




Amgueddfa Forwrol Llŷn Maritime Museum

# -Rhan 2-
# Arteffactau



Amgueddfa Forwrol Llŷn Maritime Museum

# Arteffactau

| Arteffact yn Amgueddfa Forwrol Llŷn | Ia ✓ | na ✗ |
|---|---|---|
| map | | |
| angor | | |
| pêl-droed | | |
| cwch | | |
| rhaff | | |
| car | | |
| casgen | | |



Amgueddfa Forwrol Llŷn Maritime Museum

# Arteffactau


Pa arteffactau ydych chi'n tybio sydd gan yr Amgueddfa Forwrol ?

Ydych chi'n gywir? holwch y Swyddog!

| Pa arteffactau ydych chi'n tybio sydd yn yr Amgueddfa | oes | nac oes |
|---|---|---|
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |

# Arteffactau

Beth feddyliwch chi mae'r gwirfoddolwyr yma'n ei wneud?




Amgueddfa Forwrol Llŷn Maritime Museum

# Arddangos arteffactau

Dyma arteffactau ar gyfer arddangosfa cas wydr am longddrylliad y Stuart

["Stuart" Shipwreck at Llangwnadl Llŷn (rhiw.com)]





Ysgrifennwch labeli ar gyfer yr arddangosfa i helpu swyddog yr Amgueddfa

1. teils 2. llestri



Amgueddfa Forwrol Llŷn Maritime Museum

# Arddangos arteffactau

Gwnewch gynllun o sut fyddech chi'n arddangos yr arteffactau hyn mewn cas wydr i'w gwneud yn ddiddorol ar gyfer ymwelwyr









Amgueddfa Forwrol Llŷn Maritime Museum

# Arddangos arteffactau

**Astudiwch batrymau'r teils a ddarganfuwyd oddi-ar y Stuart**

- Ewch ati i greu patrymau cymesur tebyg ar bapur sgwariau
- Beth am arbrofi ar 2Simple neu j2e5 neu app tebyg



# Arteffact 1
# y gist a'r sgerbwd



# Dod o hyd i sgerbwd

NEWS

Home | Coronavirus | UK | World | Business | Politics | Tech | Science | Health | Family & Education | Entertainment & Arts

Wales | Wales Politics | Wales Business | North West | North East | Mid | South West | South East | Cymru | Local News

## Medieval bones discovery at Nefyn maritime museum

10 April 2015




Much of the skeleton remains intact with only parts of the spine and ribs missing

**A grave containing the skeleton of a 12th century woman discovered during museum redevelopment works in Gwynedd could be one of the last known burials of its type in Wales.**

The team at CR Archaeology discovered the bones in a stone cist grave beneath a wall at Old St Mary's Church, Nefyn - now a maritime museum - 18 months ago.

Tests confirmed she was aged 60 when she died and was buried around 1180.

The team are now working to find out more about her lifestyle and diet.

Archaeologist Matthew Jones, who helped uncover the remains, said the discovery was unusual because while part of the rib cage and spine no longer remained, most of the skeleton was still intact.

This is not often the case for discoveries of this age in Wales because the acidic soil erodes bones, he said.

Mr Jones believes the grave could be one of only a small number of a similar date known in the UK.

Initial tests show the woman was in relatively good health when she died but had arthritis. She had strong bones and muscles but would probably have had a "hard life", Mr Jones said.

Analysis of her bones showed her diet lacked fish, which was unusual as Nefyn was a famous port town at the time she lived.

Further tests are continuing with the hope of finding out more about where the woman came from.

# Dod o hyd i sgerbwd

Mae eglwys neu sefydliad Cristionogol wedi bod ar safle'r Amgueddfa ers canrifoedd lawer, ac mae seiliau'r safle'n dyddio'n ôl i 500-600 O.C. Roedd Nefyn yn le pwysig ar Lwybr (gogleddol) y Pererinion i Ynys Enlli yn y canol oesoedd a byddai'r pererinion yn oedi yma i gael lluniaeth a llety ar eu taith hir. Erbyn Oes y Tywysogion roedd Priordy yma, a bu dyn enwog o'r enw Gerallt Gymro yn aros yma ym 1188. (Chwiliwch am ei hanes ar HWB).

Mae o leiaf tair eglwys wedi bod ar y safle; yr olaf yw'r adeilad sydd bellach yn gartref i Amgueddfa Forwrol Llŷn. Ei henw oedd Eglwys y Santes Fair. Fe'i hadeiladwyd rhwng 1825-7, a'r gost oedd £370. (Chwiliwch am luniau o'r eglwys ar wefan RCAHMW ) Roedd adeilad o ryw fath yno'n flaenorol.

Ond, erbyn 1904 roedd eglwys arall yn Nefyn, Eglwys Dewi Sant, ac ychydig o ddefnydd a gafodd Eglwys y Santes Fair wedyn; cynhaliwyd Ysgol Sul yno ac fe barhaodd y Gwasanaeth Diolchgarwch tan y 50au, pan roddwyd y gorau i'w defnyddio. A oedd yr adeilad am fod yn adfail?

Nac oedd ! Daeth nifer o bobl at ei gilydd yn y 1970au i'w hachub ac agor amgueddfa leol ynddi. Yn anffodus, doedd yr adeilad ddim mewn cyflwr rhy dda, a bu'n rhaid cau'r amgueddfa erbyn y flwyddyn 2000.

Beth oedd i'w wneud â'r hen eglwys ? Yn rhyfeddol, daeth pobl Nefyn at ei gilydd er mwyn codi arian a chreu amgueddfa o'r newydd, amgueddfa a chanolfan dreftadaeth i wlad Llŷn. Roedd angen codi llawer o arian, a pharatoi cynlluniau manwl. Erbyn diwedd 2013 roedd yr adeiladwyr a'r archeolegwyr wedi dod ynghyd i'r safle. Fe ddechreuon nhw trwy gloddio o gwmpas waliau'r eglwys i atgyfnerthu'r strwythur a'r seiliau. Dychmygwch eu syndod wrth iddynt ddod o hyd i olion dynol o dan y wal ! Ie, sgerbwd ! Roedd cyffro mawr ymhlith yr archeolegwyr wrth iddynt sylweddoli bod y sgerbwd yn gorwedd mewn bedd cistfaen (twll claddu wedi cael ei leinio hefo cerrig).

**Mae'r darganfyddiadau hyn yn bwysig iawn am nifer o resymau:**

*1. Maent yn hen – mae gwyddonwyr yn gallu dweud wrthym mai rhywdro rhwng 1165 a 1270 y gwnaed y bedd.*

*2. Mae beddau cistfaen mor ddiweddar â hyn yn brin iawn.*

*3. Mae profion ar y sgerbwd yn dangos ei fod yn DDYNES – ac mae olion dynol benywaidd o'r cyfnod hwn yn brin iawn, iawn.*

*Tybed pwy oedd y ddynes ? Ai un o Lŷn oedd hi? Pam y claddwyd hi yma? Beth oedd ei gwaith, ei bwyd, ei bywyd ? Bydd digon o waith ditectif i'w wneud, a thipyn o ddyfalu hefyd !*

*A wyddoch chi beth ? Mae'r Amgueddfa wedi cael cadw'r sgerbwd a'r bedd, ac mae'nt yn ddiogel yma yn Nefyn. Byddant ar gael i chi ddod yma i'w gweld cyn bo hir, a'n helpu ninnau i ddweud ei stori.*

Amgueddfa Forwrol Llŷn Maritime Museum

# Dod o hyd i sgerbwd

**Beth yw ystyr y geiriau hyn? Ewch ati i chwilio am air tebyg mewn Thesawrws**

**Beth am osod y geiriau yn nhrefn yr wyddor?**

| Gair | ystyr | Gair tebyg defnyddiwch Thesawrws |
|---|---|---|
| Cristionogol | | |
| Canol oesoedd | | |
| Pererinion | | |
| Priordy | | |
| Adfail | | |
| Darganfyddiad | | |
| Archeolegwr | | |
| Cloddio | | |
| Olion dynol | | |
| Cistfaen | | |
| Canolfan Dreftadaeth | | |
| Cyfnod | | |





Amgueddfa Forwrol Llŷn Maritime Museum

# Dod o hyd i sgerbwd

1. Pryd adeiladwyd Eglwys Santes Fair?

_______________________________________________

_______________________________________________

2. Faint o ddefnydd gafodd yr Eglwys honno?

_______________________________________________

_______________________________________________

3. Beth oedd hanes yr eglwys ar ôl ei chau?

_______________________________________________

_______________________________________________

4. Pam fod Nefyn yn le pwysig ers canrifoedd?

_______________________________________________

_______________________________________________

5. Pryd a lle ddaru adeiladwyr ddarganfod rhywbeth arbennig?

_______________________________________________

_______________________________________________

6. Beth ddaru'r adeiladwyr ei ddarganfod?

_______________________________________________

_______________________________________________

7. Pam fod y darganfyddiad yma mor bwysig?

_______________________________________________

_______________________________________________



Amgueddfa Forwrol Llŷn Maritime Museum

# Dod o hyd i sgerbwd

Yn Saesneg mae pobl yn sôn am 'a skeleton in the cupboard' i gyfleu cyfrinach guddiedig. Mae gan Amgueddfa Nefyn sgerbwd go iawn, ond dydyn ni ddim am ei guddio! Dyma ei hanes.

Mae'r Amgueddfa mewn adeilad oedd yn eglwys, ac y mae mynwent o'i chwmpas. Yn 2013 roedd dynion yn gweithio ar drwsio a gwella'r adeilad. Daethant o hyd i esgyrn! Galwyd ar Archeolegwyr (pobl sy'n nabod hen greiriau ac yn gofalu amdanynt) i helpu'r adeiladwyr. Daethant o hyd i sgerbwd a bedd arbennig o gerrig. Mae profion wedi dangos mai dynes oedd y sgerbwd a'i bod yn byw tua 800 o flynyddoedd yn ôl. Efallai ei bod yn nabod Llywelyn Fawr !

**Dyma ffeithiau amdani:**

- *Mae'r sgerbwd yn ddynes.*
- *Mae'r sgerbwd wedi ei gladdu ers amser maith mewn llecyn arbennig.*
- *Mae ganddi fedd arbennig iawn – cist o gerrig.*



**Mae'r sgerbwd a'r bedd yn yr Amguedddfa, a byddwch yn gallu dod i'w gweld yn y dyfodol a dysgu mwy amdanynt.**

**Ond tybed pwy oedd hi? Meddyliwch am gwestiynau i'ch helpu i ddod i adnabod y ddynes**

1.

2.

3.

4.

5.



Amgueddfa Forwrol Llŷn Maritime Museum

# Dod o hyd i sgerbwd

Trafodwch beth sy'n digwydd yn y llun yma!





Amgueddfa Forwrol Llŷn Maritime Museum

Ysgrifennwch un ai:-

- Ddyddiadur yr adeiladwr ddaru ddarganfod y sgerbwd
- Ymson yr adeiladwr yn darganfod y sgerbwd
- Llythyr at yr Archeolegwr yn holi mwy
- Erthygl ar gyfer Llanw Llŷn yn adrodd hanes y darganfyddiad

* **Gwnewch siart bry cop i gasglu syniadau a chynllunio**

Trefn paragraffau

Ffeithiau sydd eu hangen



Pethau i gofio am eich ffurf

e.e. llythyr—angen cyfeiriad

Geiriau gwych.


ansoddeiriau, idiomau, berfau



Amgueddfa Forwrol Llŷn Maritime Museum

# Arteffact 2

# Darn pren efo neges



goodbye the founder

of this wood

For I am off to

South Africa

1902

Owen Jones Roberts



Amgueddfa Forwrol Llŷn Maritime Museum

# Arteffact 2


Beth ydych chi'n feddwl oedd pwrpas yr arteffact yma? Trafodwch efo partner

Pwy ydych chi'n feddwl oedd Owen Jones Roberts?

Beth oedd yr arteffact yma?

Ysgrifennwch lythyr at Mrs Gwerfyl Gregory (un o wirfoddolwyr yr Amgueddfa) i holi am fwy o wybodaeth

Gwyliwch fidio Mared Williams yn siarad am yr arteffact







Amgueddfa Forwrol Llŷn Maritime Museum

# Arteffact 2

**Darllenwch yr ysgrifen**

Nodwch beth sydd wedi'i ysgrifennu yma hefo pluen ac inc (neu baent),

a defnyddio te neu goffi i wneud i'r papur edrych fel pren :-




Amgueddfa Forwrol Llŷn Maritime Museum

# Arteffact 2

Casglwch eiriau i ddisgrifio sut roedd Owen John Roberts yn teimlo wrth adael Llŷn ar fordaith i Dde Affrica

| | |
|---|---|
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |

Amgueddfa Forwrol Llŷn Maritime Museum

# Arteffact 2

Ysgrifennwch frawddegau i ddisgrifio sut roedd Owen John Roberts yn teimlo wrth adael Llŷn ar fordaith i Dde Affrica

| |
|---|
| |
| |
| |
| |
| |
| |
| |
| |



Amgueddfa Forwrol Llŷn Maritime Museum

# Arteffact 2

Meddyliwch am idiomau neu gymariaethau i ddisgrifio sut roedd Owen John Roberts yn teimlo wrth adael Llŷn ar fordaith i Dde Affrica

| |
|---|
| |
| |
| |
| |
| |
| |
| |
| |

Amgueddfa Forwrol Llŷn Maritime Museum

# Arteffact 2

**Mae darn pren Owen John Roberts o 1902 yn debyg i'n graffiti modern ni heddiw**




gan Andy Birch



gan Banksy




gan Darren Evans

Dyluniwch graffiti a neges i bawb adref pe baech chi'n mynd ar fordaith i Dde Affrica



Amgueddfa Forwrol Llŷn Maritime Museum

# Arteffact 2

Darllenwch eiriau a gwrandewch ar gân "Tre' Porthmadog" gan Bryn Fôn

**Tref Porthmadog**

Dwi'n canu'n iach i Dre' Porthmadog, mynd i ffwrdd i weld y byd;
Gadael Mam a hogia Llan a Mair o ben draw'r stryd.
Ffarwel i'r Cob a'r Cnicht a'r Wyddfa,
Boston Lodge a'r Moelwyn Mawr.
Gadael tir ar fore clir,
I hwylio'r moroedd mawr.

Pedwar mast sydd ar y sgwner, Elen yw ei henw hi;
Ar ei bwrdd dwi'n mynd i ffwrdd, dros donnau gwyllt y lli.
I Dingle, Corc a Nova Scotia,
Patagonia a Frisco Bay.
Newfoundland a Rio Grande
Ac Ynysoedd Môr y De.

Halio llechi glas o Stiniog, te a halen, grawn a glo,
.Nôl a 'mlaen o Ffrainc a Sbaen, rownd yr Horn i Galïo.
Mae'r second mêt yn ddyn i'w ofni,
Bwyta hoelion, poeri tân.
Mae Capten James yn forwr clên,
A'r cwc yn ddu fel brân.

Pan fo'r stormydd yn y Bay of Biscay, tonnau'n uwch na tô tŷ ni.
Y llong ar hynt ar bedwar gwynt, a'r nos yn oer a du.
Rwy'n cofio'r haf ym mhlwyf Llanfrothen,
Cerdded drwy y caeau gwair;
Gwrando cân yr adar mân,
Law yn llaw â Mair.



Amgueddfa Forwrol Llŷn Maritime Museum

# Arteffact 2

**Cylchwch y geiriau canlynol**

enwau = coch

priod enw = gwyrdd

ansoddair = glas

berf = melyn

adferfau = piws

Defnyddwich y geiriau yma a'r idiomau a chymariaethau i ddrafftio

- dyddiadur
- llythyr adref
- ymson

Gwnewch gynllun paragraffau bras yma:-

Paragraff 1

Paragraff 2

Paragraff 3

Paragraff 4

**Tref Porthmadog**

Dwi'n canu'n iach i Dre' Porthmadog,
mynd i ffwrdd i weld y byd;
Gadael Mam a hogia Llan
A Mair o ben draw'r stryd.
Ffarwel i'r Cob a'r Cnicht a'r Wyddfa,
Boston Lodge a'r Moelwyn Mawr.
Gadael tir ar fore clir,
I hwylio'r moroedd mawr.

Pedwar mast sydd ar y sgwner,
Elen yw ei henw hi.
Ar ei bwrdd dwi'n mynd i ffwrdd,
dros donnau gwyllt y lli.
I Dingle, Corc a Nova Scotia,
Patagonia a Frisco Bay.
Newfoundland a Rio Grande
Ac Ynysoedd Môr y De.

Halio llechi glas o Stiniog,
te a halen, grawn a glo,
Nôl a 'mlaen o Ffrainc a Sbaen
rownd yr Horn i Galïo.
Mae'r second mêt yn ddyn i'w ofni,
Bwyta hoelion, poeri tân.
Mae Capten James yn forwr clên
A'r cwc yn ddu fel brân.

Pan fo'r stormydd yn y Bay of Biscay,
Tonnau'n uwch na tô tŷ ni,
Y llong ar hynt ar bedwar gwynt,
a'r nos yn oer a du.
Rwy'n cofio'r haf ym mhlwyf Llanfrothen,
Cerdded drwy y caeau gwair.
Gwrando cân yr adar mân,
Law yn llaw â Mair.



Amgueddfa Forwrol Llŷn Maritime Museum

# Arteffact 2

**Chwiliwch am yr atebion yn y gân i ddysgu mwy am fordaith fel un Owen Jones Roberts**

1. Beth oedd enw'r llong yn y gân?

_______________________________________________

_______________________________________________

2. Enwch rai o'r pethau roedd y morwr yn eu gadael adref

_______________________________________________

_______________________________________________

_______________________________________________

3. Enwch lefydd roedd y llong a'r criw yn hwylio heibio iddynt

_______________________________________________

_______________________________________________

_______________________________________________

4. Enwch rai o swyddi'r dynion oedd yn gweithio ar fwrdd y llong

_______________________________________________

_______________________________________________

_______________________________________________

5. Ymchwiliwch i ba fath o waith fyddai'r dynion yma wedi'i wneud ar fwrdd y llong

_______________________________________________

_______________________________________________

_______________________________________________

_______________________________________________

_______________________________________________

6. Pa gargo oedd y llong yn gario?

_______________________________________________

_______________________________________________

_______________________________________________

_______________________________________________

Amgueddfa Forwrol Llŷn Maritime Museum

# Arteffact 2

Marciwch ar fap y byd y llefydd a enwir yn y gân



Amgueddfa Forwrol Llŷn Maritime Museum

# Arteffact 2

Ewch ar y we i ymchwilio i'r llefydd a enwir yn y gân "Tre' Porthmadog"

| enw'r lle | prifddinas | baner | pellter o Gymru (km) | cyfeiriad o Gymru |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |



Ewch ar HWB i greu taenlen ar sheets hefo'r wybodaeth

Amgueddfa Forwrol Llŷn Maritime Museum

# Arteffact 2

Astudiwch y Log Llong yma

Uwch-oleuwch unrhyw bwyntiau difyr



Amgueddfa Forwrol Llŷn Maritime Museum

# Arteffact 2

Defnyddiwch y Log Llong

| Enwau'r criw | Oed y criw | Swyddi'r criw | O ble roedd y criw yn dod |
|---|---|---|---|
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |

**Mae llawer o wybodaeth am gargo oedd llongwyr Cymru'n allforio ar y wefan yma**



[Gweithio Dramor - Ymfudo o Gymru (amgueddfa.cymru)]

Amgueddfa Forwrol Llŷn Maritime Museum

# Arteffact 2

Ewch ati i greu allwedd i ddangos o ba wledydd y byddai'r gwahanol gargo wedi dod



# Arteffact 2

**Dychmygwch ei bod yn 1902 ac mai chi yw Owen Jones Roberts.**

Gwnewch restr siopa o beth fydd ei angen arnoch i fynd ar eich mordaith

Dyma lun eich cist! **<u>OND</u>** y cist sydd gennych fel storfa




Amgueddfa Forwrol Llŷn Maritime Museum

# Arteffact 2

**Dychmygwch ei bod yn 1902 ac mai chi yw Owen Jones Roberts.**

Gwnewch lun o beth fyddwch yn mynd hefo chi yn eich cist llongwr





Amgueddfa Forwrol Llŷn Maritime Museum

# Arteffact 2

**Dewisiwch aelod ifanc o'r criw**

- Ysgrifennwch daflen amser diwrnod i'r aelod yma o'r criw
- Ysgrifennwch daflen amser diwrnod i rywun o'r un oed o Ysgol Botwnnog heddiw
- Trafodwch y gwahaniaeth/tebygrwydd yn y taflenni amser!

| Amser o'r dydd | Swydd | Amser o'r dydd | Gweithgaredd |
|---|---|---|---|
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |

Amgueddfa Forwrol Llŷn Maritime Museum

# Arteffact 2

Cyfweliadau hefo dau forwr — heddiw ac yn y 1960au

Gwrandewch ar gyfweliad Owain – Cocsyn Bad Achub Porthdinllaen

Gwrandewch ar gyfweliad Meic Massarelli – morwr lleol

Gwnewch nodiadau am fordeithiau'r ddau!



Amgueddfa Forwrol Llŷn Maritime Museum

# Arteffact 2

**Mae angen aelod newydd o'r criw**

Ysgrifennwch swydd-ddisgrifiad ar gyfer denu aelod newydd o'r criw

*(swydd-ddisgrifiad enghreifftiol yn y llawlyfr athrawon*

Amgueddfa Forwrol Llŷn Maritime Museum

# Arteffact 2

**Mae angen aelod newydd o'r criw**

Dyluniwch hysbyseb ar gyfer denu aelod newydd o'r criw

*(hysbyseb enghreifftiol yn y llawlyfr athrawon )*

Amgueddfa Forwrol Llŷn Maritime Museum

# Arteffact 2

**Darllenwch bennill 2 o "Gadael Tir" gan J.Glyn Davies**

- Nodwch sawl sill sydd ym mhob llinell
- Uwcholeuwch y patrwm odl

Ffarwel, fy annwyl dad a mam,
Ffarwel i Siân a Huw.
Ffarwel i Carlo, Prince a Sam,
I Bortin-llaen a Charreg Llam.
Cewch fod yn dawel, ni chaf gam,
Ar Fflat Huw Puw

**Casglwch eiriau ac enwau pobl a llefydd sy'n berthnasol i chi;**
**ceisiwch feddwl am rai sy'n odli**



Amgueddfa Forwrol Llŷn Maritime Museum

# Arteffact 2

**Cyfansoddwch bennill yn defnyddio yr un patrwm â "Gadael Tir"**

defyddiwch eich banc geiriau i helpu

Ffarwel
Ffarwel i
Ffarwel i
I
Cewch fod yn dawel, ni chaf gam,
ar Fflat Huw Puw.

neu

Hwyl fawr
Hwyl fawr i
Hwyl fawr i
I
Cewch fod yn dawel, ni chaf gam,
ar Fflat Huw Puw

Allwch chi gyfansoddi geiriau eich hun i'r ddwy linell olaf?

Hwyl fawr
Hwyl fawr i
Hwyl fawr i
I



Amgueddfa Forwrol Llŷn Maritime Museum

# Arteffact 2

**Rydych wedi cyrraedd De Affrica; ysgrifennwch lythyr adref**

Ysgrifennwch am:-

- eich teimladau
- pobl rydych wedi'u cyfarfod
- pethau rydych wedi'u gweld
- lle rydych yn hwylio iddo nesaf



Amgueddfa Forwrol Llŷn Maritime Museum

# Arteffact 2



**Dyma lun o botelaid o chwyn o Fôr y Sargasso;**

**mae'r botel yma yn yr Amgueddfa.**

Nid yn unig byddai morwyr yn mynd â phethau i'w hatgoffa o adref hefo nhw ar fordeithiau ond byddent yn dod â phethau yn ôl hefo nhw hefyd – fel y botelaid o chwyn yma!

- Dewisiwch unrhyw wlad yn y byd
- Beth fuasech chi'n dod yn ôl adref hefo chi fel cof-rodd (souvenir) a pham?
- Gwnewch lun o'ch cof-rodd yma

**Trafodwch pam fasa rhywun yn dod a potel o chwyn adref efo nhw yn ddiogel!**

**Meddylich sawl stori, traddodiad a chof-rodd sydd wedi teithio dros y byd ar hyd y blynyddoedd**



Amgueddfa Forwrol Llŷn Maritime Museum

# Arteffact 2

**Ymchwiliwch ar y we i siantis môr – sea shanties**

1. Beth yw sianti?

2. Beth yw pwrpas sianti?

3. Dewisiwch 4 sianti môr oddi ar YouTube a nodwch eu henwau yma

4. Pa offerynnau sydd i'w clywed mewn siantis môr?

5. Ymchwiliwch i ba fath o offerynnau y byddai gan forwyr ar longau

6. Pa sianti yw eich hoff sianti chi, pam?

Amgueddfa Forwrol Llŷn Maritime Museum

# Arteffact 3
# Cadair Bos'n





# Arteffact 3

Beth ydw i yn '**g**'wybod am gadair Bos'n ?

G

Beth ydw i **e**isiau ei wybod am gadair Bos'n?

E

Beth ydw i wedi'i 'd'**d**ysgu am gadair Bos'n?

D

Amgueddfa Forwrol Llŷn Maritime Museum

# Arteffact 3

Darllenwch am Gadeiriau Bos'n

A **boatswain** (/ˈboʊsən/ *BOH-sən*, formerly and dialectally also /ˈboʊtsweɪn/ *BOHT-swayn*), **bo's'n**, **bos'n**, or **bosun**, also known as a **Petty Officer**, **deck boss**, or a **qualified member of the deck department**, is the seniormost rate of the deck department and is responsible for the components of a ship's hull. The boatswain supervises the other members of the ship's deck department, and typically is not a watchstander, except on vessels with small crews. Additional duties vary depending upon ship, crew, and circumstances.





Boatswain of Felix von Luckners yacht *Seeteufel*, smoking a pipe and hosing the vessel's deck



Boatswain of the Royal Navy, c. 1820

The first uses of the **bosun's chair** come from sailing. On a ship, the **bosun** (or boatswain) is the officer in charge of the deck crew. In the **bosun's** duty, they have to manage and maintain the rigging, and this means sending men aloft to work on the sails and up on the mast. 8 Sept 2017



A **bosun's chair** (or **boatswain's chair**) is a device used to suspend a person from a rope to perform work at height. Originally just a short plank or heavy canvas, many modern bosun's chairs incorporate safety devices similar to those found in rock climbing harnesses such as safety clips and additional lines.



Harken bosun's chair



Crewsaver Crewfit 40 bosun's chair





Amgueddfa Forwrol Llŷn Maritime Museum

# Arteffact 3

Darllenwch y daflen wybodaeth gan nodi'r gwahaniaethau a'r tebygrwydd rhwng Cadeiriau Bos'n heddiw ac ers talwm

| **Cadair Bos'n**<br>**Ers talwm** | **Cadair Bos'n**<br>**Heddiw** |
|---|---|
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |



Amgueddfa Forwrol Llŷn Maritime Museum

# Arteffact 3

**Gwyliwch y fideo yma sy'n dangos sut i wneud Cadair Bos'n syml**

[How to Tie A Bosun's Chair - YouTube]

- Ysgrifennwch gyfarwyddiadau Cymraeg ar sut i greu Cadair Bos'n syml
- Cofiwch ddefnyddio berfau gorchmynnol fel "clymwch" a "rhowch"
- Ffilmiwch fidio syml o'ch cyfarwyddiadau Cymraeg



Amgueddfa Forwrol Llŷn Maritime Museum

# Arteffact 3

**Fel y gwelsoch o'r fideo Cadair Bos'n, mae clymu rhaffau yn bwysig i waith bob dydd pysgotwyr a morwyr**

Gwyliwch y fideo yma o bysgotwr o Nefyn yn clymu rhaffau i greu clymau cryf. Rhowch dro ar greu clymau eich hun, tynnwch lun o'r clymau a'u gludo yma

Beth am geisio ysgrifennu pamffled cyfarwyddiadau hawdd ar sut i glymu clymau?

# Arteffact 3

Dyma Gadair y Bos'n (Bosun's Chair)  sydd yn yr Amgueddfa.
Roedd rhaid codi'r gadair fach yma gyda morwr ynddi i ben y mast.
Dyna waith caled i rywun! — ond roedd yna un gyfrinach fach!
Edrychwch yn ofalus ar y rhaff. Beth sydd yno i'w helpu?





Amgueddfa Forwrol Llŷn Maritime Museum

# Arteffact 3



Dyma lun pwlïau tebyg i'r un ar gadair y bos'n. Roeddynt yn ddefnyddiol iawn ar long, yn enwedig llong hwyliau.


Meddyliwch sut roedd y pwli yn helpu ac ysgrifennwch eich syniadau wrth ochr lluniau isod.



Llong Hwyliau



Fferm



Ffatri



Adref

Amgueddfa Forwrol Llŷn Maritime Museum

# Arteffact 3



**Defnyddir pwlïau yn aml!**

- Mae hofrennydd achub yn defnyddio pwli i godi pobl i mewn yn ddiogel.
- Mae craen yn defnyddio pwli i symud pethau hynod o drwm.
- Defnyddir pwli i godi baner i ben polyn fflag.
- Roedd ffynnon ers talwm yn defnyddio pwli i godi'r bwced llawn dŵr.

## Gwneud pwli syml

<u>Offer</u>





- 2 glip papur fel hyn
- Tua medr o linyn neu edafedd cryf
- Basged neu focs bach tebyg i hwn
- Rhywbeth bach i'w roi yn y fasged e.e lego neu bensiliau

<u>Dull</u>

1. Agorwch ganol y clip papur cyntaf i wneud bachyn .
2. Clymwch y bachyn yma i un pen o'r llinyn
3. Rowch ben arall y llinyn trwy'r clip papur arall.
4. Rydych wedi gwneud pwli syml!
5. Rhowch y fasged ar y llawr gyda beth bynnag sydd ynddi. Ceisiwch gael eich bachyn i gydio yn y fasged. Os nad oes tyllau yn eich basged mae ychydig yn anoddach
6. Gydag un law gafaelwch yng nghlip papur dau a gyda'r llaw arall tynnwch y llinyn. Fe ddylech fedru codi'r fasged.



# Arteffact 3

Rydych yn uchel ar ben y Gadair Bos'n yn trwsio hwyl

Peintiwch lun o olygfa'r gorwel yn ystod y machlud neu'r wawr



Amgueddfa Forwrol Llŷn Maritime Museum



# Arteffact 3

Rydych yn uchel ar ben y Gadair Bos'n yn trwsio hwyl!

Casglwch eiriau o'r hyn yr ydych yn ei weld

| enwau<br>priod enwau | ansoddeiriau | berfau | adferfau |
|---|---|---|---|
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |



Amgueddfa Forwrol Llŷn Maritime Museum



# Arteffact 3

Rydych yn uchel ar ben y Gadair Bos'n yn trwsio hwyl.

Ysgrifennwch ddisgrifiad o'r hyn yr ydych yn ei weld.


Defnyddiwch y geiriau gwych a gasglwyd gennych



Amgueddfa Forwrol Llŷn Maritime Museum

# Arteffact 4

# Medal ar gyfer defnyddiwr Roced Achub Bywyd -y gwn mawr-







Amgueddfa Forwrol Llŷn Maritime Museum

# Arteffact 4

Lluniwch Fap Meddwl o resymau posibl pam y byddai David Jones o Forfa Nefyn wedi derbyn medal






Amgueddfa Forwrol Llŷn Maritime Museum

# Arteffact 4

Darllenwch hanes Henry Tregrouse

Ganwyd Henry Tregrouse yn Helston, Cernyw yn 1772. Aeth i Ysgol Ramadeg Helston ac aeth yn ei flaen i fod yn 'Cabinet Maker' neu saer dodrefn.

Pan oedd yn 35 oed bu'n llygad dyst i longddrylliad erchyll yr HMS Anson, un o longau'r Llynges Brydeinig. Boddwyd 100 o'r criw a'r Capten. Roedd yn drist iawn ar ôl gweld y ddamwain hon.

Aeth ati i ddyfeisio peiriant achub bywyd. Roedd y peiriant yn tanio roced a rhaff o'r lan at longau oedd mewn perygl ar y môr.

Bu'r Roced Achub Bywyd yn bwysig iawn yn achub miloedd o fywydau dros y blynyddoedd. Cafodd Henry wobr o £20 gan y wladwriaeth am ddyfeisio peiriant mor werthfawr. Yn drist iawn bu farw yn 1854 yn ddyn tlawd.

Dyma lun o fedd Henry a lluniau o'i ddyfeisiadau sydd mewn Amgueddfa yn Helston.










Amgueddfa Forwrol Llŷn Maritime Museum

# Arteffact 4

Darllenwch hanes Henry Tregrouse

Ganwyd Henry Tregrouse yn Helston, pentref glan-môr yng Nghernyw, yn 1772. Derbyniodd ei addysg uwchradd yn Ysgol Ramadeg Helston ac aeth yn ei flaen i fod yn 'Cabinet Maker' neu saer dodrefn.

Yn y flwyddyn 1807, pan oedd Henry'n 35 oed, bu'n llygad dyst i longddrylliad erchyll mewn bae o'r enw Bae Mownt. Drylliwyd un o longau'r Llynges Brydeinig, sef yr HMS Anson. Boddwyd 100 o'r criw a'r Capten. Roedd Henry hefyd yn flin iawn fod y llongwyr oedd wedi boddi wedi cael eu claddu mewn beddau ar y tir mawr gerllaw man y llongddrylliad yn hytrach nag mewn mynwent eglwys.

Aeth ati i ddyfeisio peiriant achub bywyd. Roedd y peiriant yn tanio roced a rhaff yn sownd wrthi o'r lan at longau oedd mewn perygl ar y môr. Bu'n brysur yn dyfeisio dyfeisiadau eraill o bob math i geisio achub bywydau llongwyr pan oeddynt mewn trafferthion. Ymgyrchodd Henry hefyd i sicrhau fod llongwyr a foddodd yn cael eu claddu mewn mynwent er mwyn dangos mwy o barch atynt.

Bu'r Roced Achub Bywyd yn bwysig iawn yn achub miloedd o fywydau dros y blynyddoedd. Cafodd Henry wobr o £20 gan y wladwrieth am ddyfeisio peiriant mor werthfawr. Bu farw yn 1854 yn ddyn tlawd iawn. Mae wedi'i gladdu mewn mynwent yn Helston.

Dyma lun o fedd Henry a lluniau o'i ddyfeisiadau Roced Achub Bywyd sydd bellach mewn Amgueddfa yn Helston.










Amgueddfa Forwrol Llŷn Maritime Museum

# Arteffact 4

Derbyniodd David Jones o Forfa Nefyn fedal am ddefnyddio Roced Achub Bywyd am flynyddoedd. Astudiwch lun Roced Achub Bywyd tebyg i'r un y byddai David Jones wedi'i ddefnyddio



# Arteffact 4

Ysgrifennwch erthygl i bapur newydd dychmygol yn disgrifio'r tro cyntaf y defnyddiodd David Jones y roced ym Morfa Nefyn - cofiwch feddwl am deitl bachog !



Amgueddfa Forwrol Llŷn Maritime Museum

# Arteffact 4

Niwmateg - Ymchwiliwch i greu roced achub bywyd trwy ddefnyddio offer dosbarth a phethau sydd gennych adref




| Offer |
| --- |
| |
| |
| |
| |
| |
| Sut fyddaf i'n gwneud y roced |
| |
| |
| |
| |
| |
| |
| |
| |
| |
| |
| |
| |
| |
| |

Amgueddfa Forwrol Llŷn Maritime Museum

# Arteffact 4

Mesurwch y pellter a chofnodwch bellter roced bawb. Gwnewch graff o'r canlyniadau.




| enw | pellter y roced (ansafonol) | pellter safonol |
|---|---|---|
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |



Amgueddfa Forwrol Llŷn Maritime Museum

# Arteffact 4

**Gwyliwch y fideo yma o greu roced**

[Arbrofi o Adra 2: Arbrawf Roced - YouTube]

| **Allwch chi addasu'r ymchwiliad yma i allu creu roced? Trafodwch mewn grwpiau.**<br>Dyma sut mae ein grŵp ni yn bwriadu creu roced.<br>Ysgrifennwch nodiadau a defnyddiwch ddiagram |
|---|
| |
| Pa newidynnau sydd yn eich hymchwiliad? |

Ewch ati ar HWB i greu Pwerbwynt neu Slides o'ch ymchwiliad roced



Amgueddfa Forwrol Llŷn Maritime Museum

# Arteffact 4

**Cafodd David fedal am ei wasanaeth hir yn defnyddio'r Roced Achub Bywyd yn Llŷn**

Dyluniwch fedal fodern ar gyfer gwasanaeth David Jones

Cofiwch feddwl am:-

* Siâp y fedal
* Lliw addas ar gyfer y fedal a'r rhuban
* Ysgrifen, symbolau a llun ar y fedal

Labelwch eich medal gan esbonio ystyr eich dyluniad.

Nodwch fesuriadau ar y diagram



Amgueddfa Forwrol Llŷn Maritime Museum

# Arteffact 4

**Badau Achub lleol**

Er fod y Roced Achub Bywyd yn cael ei defnyddio i helpu pobl yn y môr ers talwm, roedd y Bad Achub hefyd yn cael ei ddefnyddio. Rydym yn ffodus i cael sawl Bad Achub yn lleol i ni, ym Mhorthdinllaen, Abersoch, Cricieth a Phwllheli.

Lluniwch fap o Wynedd gan nodi'r gorsafoedd Bad Achub arno.

Ymchwiliwch i'r mathau o fadau sydd yn mhob gorsaf

a lluniwch allwedd map i ddangos y mathau gwahanol.



Amgueddfa Forwrol Llŷn Maritime Museum

# Arteffact 4

**Badau achub lleol**

1. Ewch ati i greu gwasanaeth ysgol ar PwerBwynt am waith y bad achub agosaf atoch chi.

2. E-bostiwch Gocsyn yr orsaf agosaf atoch chi i drefnu ymweliad neu trefnu cael gofyn cwestiynau er mwyn dysgu mwy am eich bad achub lleol.


3. Ymchwiliwch a llenwch y tabl gwybodaeth am fadau'r ardal

| **enw'r orsaf** | **pellter o'ch hysgol** | **nifer y criw** | **dyddiad agor yr orsaf** | **Math o fad** |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |

# Arteffact 4

**Llongddrylliadau**

Weithiau doedd dim modd tanio Roced Achub Bywyd na lansio Bad Achub gan fod y tywydd mor arw. Astudiwch y map llongddrylliadau, Sawl llongddrylliad sy'n agos at eich hysgol chi?






Amgueddfa Forwrol Llŷn Maritime Museum

# Arteffact 4

**Llongddrylliadau**

Dyma ddarn o arwydd llong sy'n arteffact yn yr Amgueddfa. Suddodd y llong hwyliau yma oddi ar arfordir Llŷn. Ydych chi'n gallu meddwl beth oedd enw'r llong? Chwiliwch ar y map!







Amgueddfa Forwrol Llŷn Maritime Museum